Law Commission
Reforming the law

Twyll gan ddioddefwyr anaf personol

Awgrymwyd y pwnc hwn i ni ar gyfer ein 11eg rhaglen. O dan y gyfraith bresennol, gall hawlydd anaf personol sy'n gor-ddweud ei golled yn dwyllodrus o hyd ennill y rhan cyfreithlon o'r cais. Gall gor-ddweud twyllodrus fod yn gyfystyr â chamddefnyddio proses, ond penderfynodd y Goruchaf Lys yn *Summers v Fairclough Homes Ltd* ([2012] UKSC 26, [2012] 1 WLR. 2004) y dylai'r pŵer i ddileu ceisiadau ar adeg hwyr yn yr achos gael eu gweithredu o dan "amgylchiadau eithriadol"yn unig.

Barnwyd y safbwynt hwn gan academyddion ac ymarferwyr am beidio â gwneud digon i atal twyllwyr. Yn *Summers*, cyfeiriodd y llys at fesurau eraill o ataliaeth, gan gynnwys canfyddiad anffafriol ar gostau, y posibilrwydd o draddodi am ddirmygu'r llys a'r risg o achos troseddol. Fodd bynnag, gall y rhain fod yn llai effeithiol na fforffedu'r holl gais.

Mae'r agwedd a gymerwyd yn *Summers* yn wahanol i'r hyn a gymerir gan ddeilydd polisi sy'n gwneud cais o dan ei bolisi yswiriant ei hun. Yma, gall hyd yn oed gor-ddweud bychan arwain at fforffedu'r holl gais. Mae hefyd yn wahanol i'r gyfraith mewn awdurdodaethau eraill: er enghraifft, yn 2004 cyflwynodd Senedd Iwerddon ddarpariaeth glir (adran 26(1) o Ddeddf Atebolrwydd Sifil a Llysoedd 2004) sy'n gorchymyn y llys i ymwrthod â cheisiadau twyllodrus sydd wedi eu gor-ddweud, oni bai y "byddai dileu'r achos yn arwain at anghyfiawnder".

Byddem yn falch o glywed a ddylai Comisiwn y Gyfraith archwilio'r maes hwn, neu a ddylid ei adael i'r llysoedd. Un fantais diwygiad deddfwriaethol yw y gallai fod yn fwy eglur wrth ystyried diddordeb y Wladwriaeth i ad-ennill costau gwasanaethau'r GIG a/neu fudd-daliadau.